O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 820 (Cy. 96)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013 (Amrywio) 2013

Gwnaed	*8 Ebrill 2013*
Yn dod i rym	*9 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55 (Caer–Bangor) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), 14(4), 14(7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ebrill 2013. Ei enw yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013 (Amrywio) 2013.

Amrywio

2. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-Clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2013 ("y Gorchymyn")**(3)** wedi ei amrywio drwy roi'r geiriau ("Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions") yn y fersiwn Saesneg o erthygl 1 o'r Gorchymyn yn lle'r geiriau ("Temporary Traffic Prohibitions and Prohibitions").

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Ebrill 2013

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2013/692/Cy.84